

## **Cyngor Cymuned Llanllyfni**

Cofnodion cyfarfod misol y Cyngor, Nos Fawrth y 9ed o Hydref 2018.

- 1. Presennol:** Ffion Jones (Cadair) – Nantlle; OP Huws, Hefina MW Roberts, Gwyndaf Roberts – Llanllyfni; Dafydd Thomas – Nebo; Iona Wyn Jones, Barry Bracegirdle, Nerys Williams, Erfyl Williams – Penygroes; Harry Wyn Owen – Talysarn; Judith Humphreys – Cyngorydd Sir; Sammie Williams – Heddlu Gogledd Cymru (eitem 3) / **Ymddiheuriadau:** Dylan Herbert a Justin Williams – Penygroes.
- 2. Datgan buddiant personol ynglyn ag unrhyw eitem a drafodir.** Neb yn datgan diddordeb.
- 3. Gwadd – Heddlu.** Croesawyd Sammie Williams (PCSO Penygroes) i'r cyfarfod. Adroddodd yn ol ar gwestiynnau a yrrwyd ati ymlaen llaw. Fe hysbysodd y Cyngor fod gwasanaeth ar y wê i ddangos natur ac amllder troseddau, ac i edrych ar [www.police.uk.crimemap](http://www.police.uk.crimemap) i gael yr wybodaeth ddiweddaraf. Er mwyn ymholiadau ar droseddau rhywiol yn yr ardal, byddai'n rhaid gwneud cais swyddogol i'r Awdurdod Heddlu o dan Deddf Rhyddid i Wybodaeth. Trafodwyd y broblem o graffiti yn yr arosfan bws yn Mhenygroes – yr Heddlu angen dal pwy bynnag sy'n gwneud ar y pryd ar gyfer troseddu. Mae swyddog ar hyn o bryd yn gweithio efo'r Heddlu i gyd-lynnu efo'r ieuencid. Fe'n hysbyswyd fod Julie Holland wedi gadael Penygroes ac yn gweithio yng Nghaernarfon, ac mai Sammie yw pwynt cyswllt yr ardal rwan. Yn ogystal, mae 2 heddwys yn gwasanaethu ardal Dyffryn Nantlle a thu hwnt, ond fod heddwysion Gwynedd yn cyd-weithio. Er mwyn adrodd am gwynion, dylid ffonio 101 neu 999 mewn argyfwng. Nid oes aelodau staff ym Mhenygroes drwy'r amser, ac felly os nad oes ateb yno, dylid siarad efo Swyddfa Llanllyfni drwy'r teclyn sydd wrth y drws. Roedd pryder nad oedd yn hawdd iawn trosglwyddo gwybodaeth am leoliadau yn y Dyffryn fel hyn, ac y dylid ysgrifennu at y Comisiynydd i awgrymu cael staff yn swyddfa Penygroes fel man cyswllt a manteisio ar yr adnoddau sydd yno i'w llawn botensial. Rhannwyd pryderon am gyffuriau – y mwyaf o wybodaeth sy'n cael ei drosglwyddo, y mwyaf a all ei wneud i daclo unrhyw broblem. Dywedodd Sammie fod PCSOs yn cerdded o amgylch y pentrefi, ond nid yr PCs. Pwysleisiodd y pwysigrwydd o gysylltu os oes amheuan. Gwahodd Sammie yn ol eto fis Ebrill. Diolchwyd iddi am ei phresenoldeb heno.
- 4. Cywirdeb cofnodion cyfarfod Medi: Angen cywiro – eitem 6 - Ffordd yr Orsaf nid Ffordd y Sir.** Iona yn cynnig derbyn y cofnodion, OP Huws yn eilio.
- 5. Cyngorwyr Sir – Adroddiadau.** Cafwyd adroddiad ar lafar ac yn ysgrifenedig gan Judith.
- 6. Materion yn codi o'r cyn gofnodion ac ymatebion Cyngor Gwynedd.** \*Graianfryn i Bryn Teg – gordyfiant – cysylltu efo Cyngor Gwynedd eto i atgoffa; \*Anhapus efo ymateb Cyngor Gwynedd ynglyn a'r llinellau melyn ar Ffordd y Sir – cysylltu efo Cyngor Gwynedd eto a gofyn iddynt eu rhoi yn ol fel ag yr oeddent ddwy flynedd yn ol; \*Baw cwn – heb dderbyn ymateb i'n cais am arwyddion mynwentydd – cysylltu eto. Cafwyd ymateb i'r ebost am broblemau baw cwn ac fe awgrymwyd ymgyrchu eto. Cysylltu yn ol a gofyn i'r Swyddog yrru pamffledi baw cwn Dyffryn Nantlle a chyflenwad o fagiâu baw cwn i ysgolion Llanllyfni a Penygroes i'w rhannu. Yn ogystal, awgrymwyd y dylai swyddog baw cwn nodi os oes problem baw cwn mewn ardal wrth ymweld er mwyn blaenoriaethu ardaloedd mwyaf blaenllaw. Angen gofyn pa mor aml mae biniau yn cael eu gwagio – nifer o sylwadau am finiau gorllawn. Gofyn am bresenoldeb warden gwn yn y boraeau rhwng 7 ac 8 yn y bore. Lleoliadau problemus ag adnabwyd – o Gwyndy i fyny at ysgol Llanllyfni, ac ar y bont rhwng Llanllyfni a Penygroes.
- 7. Materion Pentrefi:** Nantlle – Llwybr troed Tyrpeg i Talymignedd yn fwd i gyd – cysylltu efo swyddog llwybrau; Lon Tai Nantlle – y gwrychoedd dal heb eu torri – cysylltu eto; Tai Nantlle – twll yn y lon tu allan i Glaslyn. Talysarn Mae angen torri llwybr 49 (heibio Plas Du a Bro Silyn) a'r llwybr sydd yn mynd heibio Hyfrydle Terrace; Defaid yn crwydro o gwmpas y llyn a baw ar y Trim Trac – wedi bod ar y cae pel droed hefyd ac o gwmpas y trac BMX; Holi pryd fu yr ysgubwr stryd yn y pentref ddiwethaf; Biniau baw ci a biniau cyffredinol ac angen eu gwagio fel mater brys. Llanllyfni – Gwteri angen eu glanhau yn y pentref; Gordyfiant o safle y Quarry; Tipio anghyfreithlon ar Lon Tyddyn Agnes yn y ffoes. Penygroes – Gyrru rhestr o'r llwybrau sydd yn cael eu torri i bob Cyngorydd; Ffordd y Sir – tractorau efo llechi yn dod ar hyd Ffordd y Sir – holi Cyngor Gwynedd ynglyn a chyfyngiad pwysau; Parcio Ffordd y Sir yn creu problemau; Stryd yr Wyddfa – 'Storm-Drain' wedi ei adael ar agor wrth y becws – cafwyd sylw bod hwn yn llawn i'r top ac angen ei lanhau. Nid yw'r draeniau ar Ffordd yr Orsaf i'w gweld wedi eu glanhau – gofyn pryd y bu i'r gwaith yma gael ei wneud ddiwethaf; Gor dyfiant coed ar y llwybr o Ffactri i Cae Nantlle Vale yn hongian drosodd ac yn beryglus – trefnu cyfarfod safle i Barry gyfarfod efo'r Swyddog Llwybrau.

**8. Taflen Ariannol a Chyllid; Benthyciadau PWLB.** Cadarnhawyd y daenlen. Penderfynwyd bod angen cyfarfod is-bwyllgor eto a gwahodd Gareth YGC. Angen gwybod beth yw'r swm terfynnol ar gyfer y gwaith sydd yn cael ei gwblhau ar hyn o bryd. Angen map o Cam 2, a phrisiau ar gyfer y gwahanol gymalau o Cam 2. Trafod benthyciadau ar ol cael y ffigyrau terfynnol.

**9. Seddi gweigion.** Cyflwynwyd un enw i'r Cyngor i gynrychioli Talysarn, a phenderfynwyd cyfethol Nora Jones i'r Cyngor – gyrru ati i gadarnhau, a gwahoddiad i gyfarfod Tachwedd.

**10. Cynllunio.** C18/0755/22/LL Uned 6B Stad Ddiwydiannol Penygroes – cais ol weithredol ar gyfer gosod unedau symudol gyda defnydd arfaethedig o le storio a thrin moduron ac adfer swyddfa busnes. Caniatau; The Woollen Mill Penygroes – newid amod cais cynllunio – penderfyniad y Cyngor oedd 'dim sylwadau' ond gofyn y cwestiwn os oes digon o le parcio; Chwarel Ty Mawr West – Caniatau – gofyn faint o lorïau fydd hwn yn ei ychwanegu y dydd. Hefyd gofyn beth fydd amseriad y lorïau. Gofynwyd i'r Clerc gysylltu a'r adran gynlluni yng Nghyngor Gwynedd i ofyn os oes gwybodaeth ganddynt am y lorïau sydd yn teithio ar hyd Lon Ddwr Llanllyfni yn cario pridd – i ble maen nhw'n mynd?

**11. Cyfarfodydd is-bwyllgor / cyfarfodydd yn ystod y mis. Eglwys Talysarn** Yr Eglwys wedi ei gwerthu – cofebion Chwarelwyr Dorothea a gollwyd yn y rhyfel (tu allan i'r Eglwys) a chofeb fach y tu mewn i'r Eglwys. Angen eu symud o'r Eglwys er mwyn eu gwarchod ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Daeth cynnig i law o'u lleoli yn/wrth Ganolfan Talysarn, a chynnig hefyd gan rywun i'w symud. Gofynwyd am ddymuniad y Cyngor Cymuned o ran lleoliadau'r cofebion. Penderfynwyd cael yr un fach yn y Ganolfan yn Talysarn, a chofebion Dorothea ym mynwent MacPelah wrth ochr y fainc. Cysylltu yn ol gyda'n awgrymiadau, a gofyn am gydweithio drwy Harry Wyn Owen; Cofeb R Williams Parry – cafwyd ymateb yn ol gan Un Llais yn cadarnhau bod hawl gan y Cyngor Cymuned greu cronfa ar gyfer y gofeb o dan adran 137 – byddai'r arian yn cael ei glustnodi yn uniongyrchol ar gyfer gwariant ar y gofeb, ac y dylid cadw'r gronfa ar wahan mewn cyfrif newydd. Ffion am holi sut i gychwyn cronfa 'Crowd Funding', a'r Clerc i holi am gyfrif banc.

**12. Gohebiaeth**

**Cyngor Gwynedd:**

\* "Pa wasanaethau sy'n bwysig i chi?" – Ymgyrch. Er gwybodaeth.

\* Cyfyngiadau parcio – Penygroes. Er gwybodaeth.

\* Grant Chwaraeon Cist Gwynedd. Rhannwyd yr wybodaeth.

**\*Arall**

\* Parc Cenedlaethol Eryri – Cynllun Datblygu Lleol Eryri – ymgynghoriad ar y materion a godwyd. Rhoddwyd i Ffion.

\* Cylchgrawn Clerks Direct. Ar y bwrdd.

\* Un Llais - Galluogi Adnoddau Naturiol a Lles yng Nghymru ; Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ; Pecyn Cymorth Asedau a Gwasanaethau ; Bwletin ; Ymgynghoriad – heolydd heb eu mabwysyadau yng Nghymru ; Ymgynghoriad Adroddiad Blynyddol Drafft PACCA. Rhannwyd yr ohebiaeth yma i'r Cyngorwyr ar ebost yn ystod y mis – dim sylwadau.

\* Newyddion 'Chwarae Cymru'. Er gwybodaeth.

\* Ebost – coed peryglus. Darllenwyd yr ebost am goed peryglus rhwng dau eiddo ym Mhenygroes – Gofynwyd i'r Clerc yrru copi o'r ebost ymlaen i Gyngor Gwynedd Adran Gwarchod y Cyhoedd (Rhys Jones) er mwyn rhannu pryderon yr unigolyn a gysylltodd efo'r Awdurdod perthnasol.

**13. Goleuadau Nadolig**

Y pris erbyn hyn yn £200 yr un i osod bocs cyflenwad. Gofynwyd eto am niferoedd ar gyfer pob pentref. Bydd angen penderfyniad buan er mwyn cyllido ar eu cyfer, a rhoddwyd caniatad y Cyngor llawn i is-bwyllgor benderfynu ar y niferoedd terfynnol unwaith y byddai'r ceisiadau wedi dod i law o bob pentref.

**14. Pecyn Cydnabyddiaeth Ariannol.** (copi wedi ei yrru ar ebost). Er gwybodaeth – pob Cyngorydd wedi derbyn copi.

**15. Polisi Cyfryngau Cymdeithasol** Penderfynwyd na fyddai'r Cyngor yn mabwysiadu ar hyn o bryd – teimlai'r Cyngorwyr nad oedd yn berthnasol i'n sefyllfa bresennol.

**16. Biniau Halen** Dim ymateb yn ol gan y Swyddog o Gyngor Gwynedd, er i'r Clerc gysylltu ddwywaith yn ystod y mis. Gofynwyd i'r Clerc gysylltu eto, a gofyn am arolwg llawn o'r biniau, gan fod nifer wedi malu a halen yn llifo allan, rhai yn llawn dwr. Os am dalu i'w llenwi, dylai'r bocsus fod yn gyflawn ac yn addas i'w pwrpas. (copi o'r ebost i'r tri Cyngorydd Sir).

**17. Dysgwyr y Dyffryn** Cysylltu efo Hawys Roberts i gynnig rhywun o'r Brifysgol ddod i'n cyfarfod nesaf. i drafod eu strategaeth dysgwyr, a thrafod cydweithio efo ysgolion.

**18. Clwb Ieuenctid** 4 wedi ceisio am y swydd, a chyfweliadau yn cael eu trefnu. Judith am gadarnhau dyddiad ac amser y cyfweliadau efo Erfyl a Justin (cynrychiolwyr y Cyngor Cymuned ). Erfyl/Justin am fynychu'r cyfweliadau ac adrodd yn ol i'r Cyngor.

**19. Gloddfa Glai**

**20. Llwybrau a Mynwentydd.** Bedd wedi suddo – Gorphwysfa - y Cyngor am lenwi'r tyllau; Llwybr 84 Nebo – gordyfiant, a Llwybr 37 – pombren wedi malu, a defaid ar y llwybr.

**21. Materion yn ymweud a'r heddlu.** Eitem 3.

**22. Materion ariannol – Adroddiad Archwilwyr Allanol 2017-18;** \*Anfonebau: A Johnson – derbynebau £19.08 A Johnson – Ffon/Rhyngrwyd £25; Dafydd Williams £320; Antur Nantlle £144

**Ceisiadau am arian** – Clwb y Caban; Eisteddfod Gadeiriol Llanllyfni. Trafod mis Chwefror.